O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 207 (Cy. 28)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Gylchfan Cilgeti, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Ionawr2014* |
| *Yn dod i rym* | *31 Ionawr 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Ionawr 2014 Gorffennaf a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Gylchfan Cilgeti, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 31 Ionawr 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A477 sy'n ymestyn o Gylchfan Sanclêr yr A477/A40 yn Sir Gaerfyrddin hyd at Gylchfan Cilgeti yr A477/A478 yn Sir Benfro.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiad

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n cario llwyth sy'n lletach na 3.2 metr, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o'r fath gael ei yrru ar y darn o'r gefnffordd.

### Cymhwyso

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Ionawr 2014

*R Morgan*

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.